RHIFYN
ISSUE
54
23.03.23

Llais Llantrisant



DYDDIADAU ALLWEDDOL
KEY DATES

31.03.23 - Plant yn gorffen - gwyliau'r Pasg
Children finish - Easter Break
17.04.23 - Diwrnod HMS - Staff yn unig
INSET Day - Staff only
18.04.23 - Plant yn dychwelyd - Tymor yr Haf
Children return - Summer Term
26.05.23 - Plant yn gorffen - Hanner Tymor
Children finish - Half Term

DYDDIADAU'R TYMOR
TERM DATES

Diwrnod olaf Tymor y Gwanwyn eleni fydd 31.03.23 am 3:30 yp. Bydd y plant yn dychwelyd ar gyfer Tymor yr Haf ar 18.04.23. Diwrnod ola'r flwyddyn yw 21.07.23. Cofiwch ymweld â chalendr gwefan yr ysgol yn rheolaidd i wirio dyddiadau.
The last day of the Spring Term this year is on 31.03.23 at 3:30 pm. The children return for the Summer Term on 18.04.23. The last day of the year is 21.07.23. Remember to visit the school website calendar regularly to check dates.

CERBYDAU
VEHICLES

Hoffem atgoffa pawb ni chaniateir unrhyw gerbydau heb eu hawdurdodi i yrru trwy / parcio ym mae bysiau'r ysgol. Gofynnir yn garedig i chi sicrhau fod pob aelod o'r teulu yn derbyn y neges hon, os gwelwch yn dda, gan nad ydynt yn debygol o weld y cylchlythyr yma, efallai. Yn yr un modd, gofynnir i ymwelwyr barcio ar yr heol y tu fas i'r ysgol yn hytrach na gyrru i mewn a pharcio ym maes parcio staff yr ysgol, os gwelwch yn dda. Gofynnir hyn i sicrhau diogelwch ar safle'r ysgol. Hoffem ddiolch i bawb sy'n ein helpu eisoes trwy ddilyn y canllawiau hyn.
We should like to remind everyone that no unauthorised vehicles are permitted to drive through or park in the school bus bay. Please pass this message on to family members should they not see this newsletter. By the same token, visitors are asked to park on the road outside school rather than drive into and park in the staff car-park, please. We ask this to ensure safety on the school site. We should like to thank everyone who already helps us by following these requests.



YR EISTEDDFOD YSGOL
THE SCHOOL EISTEDDFOD

Llongyfarchiadau mawr i bawb fu'n cystadlu yn Eisteddfod yr Ysgol a gynhaliwyd ar Chwefror 8fed. Cafwyd diwrnod arbennig yn dathlu doniau llawer iawn o'n digbylion ni. Llongyfarchiadau gwresog i AL am ennill Cadair yr Eisteddfod ar gyfer ei cherdd fendigedig!
Many congratulations to all those who took part in the School Eisteddfod which was held on February 8th. We had a great day celebrating the many talents of a large group of our pupils. A big congratulations to AL on winning the Eisteddfod Chair for her splendid poem!



YR EISTEDDFOD GYLCH
THE REGIONAL EISTEDDFOD

Yn yr un modd, hoffem longyfarch yr holl blant a fu'n cystadlu yn Ysgol Llanhari ar Fawrth 9fed yn yr Eisteddfod Gylch. Unwaith eto, ymddygiad a pherfformiadau arbennig o dda gyda phob un disgybl yn serennu! Ymlaen i'r Eisteddfod Sir nesaf a gynhelir ym Mhorthcawl ar Fawrth 24ain.
By the same token, we should like to congratulate all those pupils who competed in the Regional Eisteddfod at Ysgol Llanhari on March 9th. Once again, exceptional behaviour and outstanding performances with each and evry pupil shining! On to the County Eisteddfod next which will be held in Porthcawl on March 24th.

Oriel / *Gallery* | Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant (secure-primarysite.net)



Eisteddfod

Ebost / *Email*: admin@yggglantrisant.rctcbc.cymru

FFURFLENNI
FORMS

Yn wahanol iawn i'r hen ddyddiau (!), defnyddiwn 'Microsoft Forms' yn aml fel modd o gael caniatâd rhieni a gofalwyr am nifer fawr o resymau yn hytrach nag anfon llythyron adref a disgwyl slip o bapur yn ôl. Mae'r system hon yn effeithiol iawn er mwyn cadw cofnod yn ganolog yn yr ysgol. Gofynnir yn garedig i chi ymateb mewn da bryd i'r ffurflenni a hynny cyn i'r ffurflenni gau i ysgoi gorfod atgoffa - weithiau tair neu bedair gwaith. Diolch am eich cydweithrediad.

In contrast to the good old days (!), we often use 'Microsoft Forms' as a means to gain parental permission for a variety of reasons rather than sending paper letters out and expecting a slip of paper back in return. This system is very effective for keeping records in one central place in school. Thank you dor responding to forms in a timely fashion before the forms' closing dates to avoid the many reminders we have to send out, please - sometimes three of four times. We thank you for your cooperation.

Ffurflenni Allweddol / *Key Forms* | Ysgol Gynradd Gymunedol Gymraeg Llantrisant (secure-primarysite.net)

HMS 2022-2023
INSET 2022-2023

Erbyn hyn, bydd pob ysgol yng Nghymru yn cau am 6 diwrnod HMS eleni.

By now, every school in Wales will close for 6 INSET days this year.

05.09.22	**09.01.23**	**17.04.23**
24.07.23	**+ 2 i'w trefnu / *TBA***	

POB LWC!
GOOD LUCK!

Hoffem ddymuno pob lwc i bawb fydd yn cystadlu yn yr Eisteddfod Sir ym Mhafiliwn Porthcawl ar 24.03.23. Rydym yn siwr y bydd newyddion da gennym i'w rannu gyda chi ar ôl gwyliau'r Pasg!

We'd like to wish all those competing in the County Eisteddfod in Porthcawl Pavilion on 24.03.23 the very best of luck. We're sure that we'll have good news to share with you after the Easter break!

SEREN Y SGRÎN
STAR OF THE SCREEN



Bu MW yn cymryd rhan mewn 2 ddiwrnod o ffilmio ar gyfer Y Sŵn – ffilm newydd sy'n adrodd yr hanes y tu ôl i'r ymgyrch am sianel deledu genedlaethol Gymraeg yn yr 80au cynnar. Mae hi'n chwarae rhan wyres Gwynfor Evans. Mae'n cael ei dangos yn Chapter a sinemâu ledled Cymru a thu hwnt ym mis Mawrth a bydd ar S4C yn ddiweddarach yn y flwyddyn. Edrychwn ymlaen at weld MW ar ein setiau teledu!

MW took part in 2 days of filming for Y Sŵn - a new movie which tells the story behind the campaign for a national Welsh language TV channel in the early 80s. She plays Gwynfor Evans' granddaughter. It's showing in Chapter and cinemas throughout Wales and beyond in March and will be on S4C later in the year. We look forward to seeing MW on our TVs!





LLONGYFARCHIADAU
CONGRATULATIONS

Llongyfarchiadau mawr i ED a ND am ddod yn gyntaf gyda'u tîmau mewn cystadleuaeth ddawns yn Stoke yn ddiweddar.

Congratulations to ED and ND on coming first with their teams in a recent dance competition in Stoke.

CWIS DIM CLEM!
THE NO IDEA QUIZ!

Da iawn wir i'r tîm talentog isod am ddod yn ail yn erbyn nifer fawr o ysgolion eraill yn Rhondda Cynon Taf mewn cwis a gynhaliwyd gan @MenterIaithRhCT yn ddiweddar.

A big 'well done' to the talented team below on coming second against many other schools in Rhondda Cynon Taf in a quiz held by @MenterIaithRhCT recently.







LLONGYFARCHIADAU
CONGRATULATIONS

Llongyfarchiadau mawr i LL am ddod yn gyntaf mewn cystadleuaeth Cyclo-cross yn ddiweddar.

Congratulations to LL on coming first in a recent Cyclo-cross competition.

LLWYDDIANNAU'R BYD CHWARAEON
SPORTING WORLD ACHIEVEMENTS

Hoffem longyfarch y plant i gyd am eu hymddygiad, ymroddiad ac ymdrech tra'n cystadlu mewn twrnameintiau rygbi a phêl-droed a drefnwyd gan 'Ysgolion Pontypridd' a'r Urdd yn ddiweddar.

We should like to congratulate the pupils on their behaviour, dedication and effort whilst competing in rugby and football tournaments arranged by 'Pontypridd Schools' and The Urdd recently.





